

**Adroddiad Pobl Ifanc**

**GYDA'N GILYDD!**

**Creu cyngor ysgol uwchradd  
gryf sy'n cynrychioli pawb**

**Gorffennaf 2021**



Comisiynydd  
Plant Cymru  
Children's  
Commissioner  
for Wales

Rydyn ni eisiau i bob person ifanc yng Nghymru wybod am eu hawliau, a phrofi eu hawliau.

Mae hawliau gan bob person ifanc. Maen nhw wedi'u hysgrifennu yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

Mae un o'r hawliau'n dweud y dylai pob person ifanc gael lleisio barn ar y penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw.

Mae hynny'n golygu bod angen i bob person ifanc gael cyfle i rannu eu barn a chael gwrandawriad.

Yng Nghymru, mae'n rhaid bod cyngor ysgol ym mhob ysgol uwchradd. Dyma un o'r ffyrdd y gall pobl ifanc leisio barn ar beth sy'n digwydd yn yr ysgol.

## Beth wnaethon ni a pham?

Yn 2018 fe ofynnnon ni i bron 7000 o blant a phobl ifanc ddweud wrthyn ni oedden nhw'n teimlo eu bod nhw'n derbyn eu holl hawliau.

Un o'r pethau ddysgon ni oedd bod plant mewn ysgolion cynradd, ac ysgolion arbennig, yn teimlo'n **fwy abl** i roi eu barn yn yr ysgol na phobl ifanc mewn ysgolion uwchradd.

Penderfynodd ein tîm, a'n panel ymgynghorol pobl ifanc, ei fod yn bwysig darganfod beth allai wneud i fwy o bobl ifanc deimlo eu bod yn cael rhoi barn yn yr ysgol uwchradd.

Fe wnaethon ni hynny trwy gynnal mwy o arolygon a chyfarfodydd gyda disgyblion, athrawon, a llywodraethwyr, a grwpiau eraill ar draws Cymru.

## Beth ddarganfuon ni

1. Mae cynghorau ysgol yn cael eu gweld fel rhan bwysig o bob ysgol, ac maen nhw wedi gwneud rhai newidiadau gwych, fel newid gwisg ysgol/bwydlenni, a sicrhau bod mwy o chwaraeon a gweithgareddau ar gael.
2. Mae pobl ifanc mewn ysgolion uwchradd yn cael bod cynghorau ysgol yn llai gwerthfawr nag y mae plant mewn ysgolion cynradd. Maen nhw'n teimlo'n llai abl i gymryd rhan a rhoi eu barn ar benderfyniadau nag y mae plant a phobl ifanc mewn mathau eraill o ysgolion.
3. Mae gallu dweud eu dweud, a theimlo eu bod yn cael gwrandawriad, yn dda i lesiant pobl ifanc.
4. Dyw pob person ifanc ddim yn teimlo eu bod yn cael yr un cyfle i gymryd rhan. Er enghraifft dyw pobl ifanc LHDTC+, pobl ifanc anabl, a phobl ifanc sy'n Ddu, yn Asiaidd, neu o leiafrif ethnig ddim bob amser yn teimlo eu bod nhw'n cael yr un cyfle i gymryd rhan.
5. Dyw pobl ifanc sydd ddim mor hyderus gyda'u gwaith ysgol neu gyda'u ffrindiau ddim yn cael yr un cyfle i gymryd rhan chwaith.
6. Mae llawer o bobl ifanc yn teimlo bod eu cyngor ysgol ddim yn rhan o unrhyw beth mwy, ac nad oes cysylltiad â rhannau eraill o gymuned yr ysgol.
7. Dydy disgyblion ddim bob amser yn cael eu dewis ar gyfer cyngor yr ysgol mewn ffordd maen nhw'n meddwl sy'n deg, nac mewn ffordd sy'n cadw at y rheolau y dylai ysgolion eu dilyn.

8. Gallai fod cysylltiadau gwell rhwng cyrff llywodraethu a chynghorau ysgol. Mae gan bob ysgol gorff llywodraethu, sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau ynghylch sut mae'r ysgol yn cael ei rhedeg. Maen nhw'n ystyried pob agwedd ar yr ysgol, fel y rheolau mae'n rhaid i'r disgyblion eu dilyn, a sut mae'r ysgol yn gwario'i harian. Ond does dim llawer o gyrff llywodraethu yn esbonio'u penderfyniadau wrth gyngor eu hyssgol. Ac nid pob corff llywodraethu mewn ysgolion uwchradd sy'n dilyn y rheolau sy'n dweud y dylai dau ddisgybl fod yn rhan o'r corff llywodraethu.

**Ewch i'n hawgrymiadau gwych ar gyfer rhoi cyfle i fwy o bobl ifanc ddweud eu dweud yn yr ysgol**